Estyn
Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Kelly Jones
Ysgol Crud Y Werin
Aberdaron
Pwllheli
Gwynedd
LL53 8BP

12/06/2025

Annwyl Kelly Jones

**Ymweliad Interim:** Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Crud Y Werin yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag un argymhelliad o'u harolygiad craidd blaenorol. Yn ogystal, edrychwyd ar gynnydd yr ysgol wrth gyflawni gofynion un flaenoriaeth yng nghynllun gwella'r ysgol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

- Mae'r staff cyfan yn cydweithio'n effeithiol o dan arweiniad y pennaeth strategol er mwyn mynd ati i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Maent yn gosod gwaelodlin er mwyn adnabod bylchau ym medrau a gwybodaeth disgyblion. Maent yn rhoi cynlluniau bwriadus ar waith i fynd i'r afael â'r bylchau hyn yn llwyddiannus.
- Mae'r staff yn ystyried llais y disgybl yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau gwrando a llafar yn llwyddiannus mewn amryw gyd-destunau. Maent yn penderfynu ar themâu ddiddorol sy'n apelio at ddisgyblion ac yn eu sbarduno i gymryd diddordeb yn eu dysgu. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod yn ddeallus ac yn gwrando'n barchus ar oedolion a'u cymheiriaid.

- Yn ddiweddar, mae'r staff wedi gweithio'n ddiwyd i ddatblygu ethos o gariad tuag at ddarllen ymysg disgyblion. Maent yn trefnu digwyddiadau cyffrous fel sioeau am awduron a gweithdai darllen. Mae llawer o'r disgyblion yn dangos mwynhad mewn darllen sy'n eu cefnogi'n effeithiol i ymchwilio i wybodaeth a chysyniadau mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Maent yn siarad yn aeddfed am eu hoffter o wahanol nofelau, ac yn cyfeirio at awduron sy'n apelio fwyaf atynt.
- Mae'r athrawon wedi cydweithio i gynllunio ystod o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu at bwrpas ac mewn amryw ffurf. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion afael sicr o ffurf ac yn ysgrifennu gyda chywirdeb. Yn yr arfer orau, mae'r disgyblion yn ymestyn eu geirfa, yn defnyddio atalnodi amrywiol ac yn defnyddio geirfa er mwyn creu naws yn effeithiol.
- Mae arweinwyr a'r athrawon wedi adnabod yr angen ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ymhellach. Maent wedi llunio trosolwg cynhwysfawr sy'n galluogi'r athrawon i gynllunio profiadau ar gyfer y disgyblion ieuengaf sy'n datblygu eu medrau rhifedd yn briodol. Mae cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion hynaf yn dechrau datblygu'n llwyddiannus.

## Sicrhau bod arweinwyr yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn brydlon ac effeithiol

- Mewn amser byr, mae'r pennaeth strategol wedi mynd ati'n ddyfal i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, yn effeithiol. Mae wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau arfarnu er mwyn caffael darlun cywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol, gan gynnwys llais yr holl staff a'r disgyblion yn y broses.
- Mae arweinwyr wedi ystyried yr holl dystiolaeth er mwyn cynllunio blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn fwriadus. Mae'r camau gweithredu yn synhwyrol ac mae gwerthusiadau parhaus arweinwyr yn dechrau dangos cynnydd yn erbyn mwyafrif y camau gweithredu.
- Mae'r pennaeth strategol wedi adnabod yr angen i addasu a chryfhau gweithdrefnau diogelu a gwella safle'r ysgol. Mae wedi cynnwys yr awdurdod lleol mewn penderfyniadau strategol pwysig er mwyn sicrhau'r gwelliannau mewn amser priodol.
- Mae'r pennaeth strategol wedi ystyried barn ac arbenigedd y staff wrth gynllunio addasiadau angenrheidiol i'r gweithdrefnau dysgu ac addysgu, sy'n cynnwys pennu cyfrifoldebau addysgu sy'n addas i'w profiadau a'u medrau.
- Drwy gryfhau'r broses rheoli perfformiad, mae gan y staff mwy o berchnogaeth dros eu datblygiad proffesiynol a'u targedau gwella. O ganlyniad, mae staff wedi ymweld ag arfer dda mewn ysgolion eraill sydd wedi arwain at welliannau yn eu darpariaeth ac mewn deilliannau disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612039

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol